

**Papur Gwyrdd ‘Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl’**

**Pwrpas**

1. I alluogi'r Cyngor Partneriaeth i drafod y cynigion a gyflwynwyd yn y Papur Gwyrdd ‘Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl’.

**Cefndir**

2. Ar y 20 Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Papur Gwyrdd ‘Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl’. Mae'r Papur Gwyrdd yn adeiladu ar ymgynghoriad blaenorol ar ddiwygio llywodraeth leol a thrafodaethau parhaol ar y ffordd ymlaen.
3. Mae'r Papur Gwyrdd yn cyflwyno opsiynau a allai arwain at awdurdodau lleol mwy o faint a mwy cynaliadwy yng Nghymru, a all ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol a chynaliadwy. Rydym yn ymgynghori ar:
  - bolisi posibl i greu awdurdodau lleol sy'n gryfach ac yn fwy o faint ac opsiynau i'w gweithredu
  - sut y gallem sicrhau bod aelodau etholedig yn cael y cymorth a'r gydnabyddiaeth sydd arnynt eu hangen i gyflawni eu rôl yn effeithiol
  - pa bwerau a hyblygrwydd ychwanegol sydd eu hangen ar lywodraeth leol

**Trafodaeth**

4. Gellir dod o hyd i gopi o'r Papur Gwyrdd ar <https://beta.llyw.cymru/cryfhau-llywodraeth-leol-cyflawni-dros-ein-pobl> ac ynghlwm i'r papur hon fel atodiad.

**Gweithrediad**

5. Gwahoddwyd y Cyngor Partneriaeth i drafod yr awgrymiadau sydd yn y Papur Gwyrdd ac unrhyw awgrymiadau arall a allai fod ganddynt i gryfhau Llywodraeth Leol.

**Adran Llywodraeth Leol**

**Llywodraeth Cymru**